

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth; Mr R. Clive Williams

LLYTHYR DIWEDD TYMOR Y NADOLIG

Cyngerdd Nadolig - diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth i'r Cyngerdd Nadolig yn y Neuadd Fawr nos Fawrth. Mae lluniau o'r noson ar wefan yr ysgol.

Canu Carolau – mi fydd y Gymdeithas Rieny ac Athrawon yn canu carolau yn y gymuned ar nos Fawrth, Rhagfyr 15fed rhwng 5 o'r gloch a 6.30yh. Mi fydd croeso i bawb ddychwelyd i'r ysgol i gael lluniaeth ysgafn am 6.30yh.

Cyngerdd Cerddorol yn y Neuadd Fawr – mi fydd disgyblion Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn ymweld â'r Neuadd Fawr ar brynhawn ddydd Llun, Rhagfyr 14eg ar gyfer cyngerdd cerddorol rhad ac am ddim gan Wasanaeth Cerdd Ceredigion. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o 50c ar gyfer costau'r bysiau.

Cinio Nadolig yr Ysgol – dydd Mercher, Rhagfyr 16eg.

Gemau Bwrdd – cyfraniad yr ysgol i ymgyrch coch, gwyn a gwyrdd yr Urdd - Fel rhan o ymgyrch yr Urdd i godi arian i'r mudiad mi fydd disgyblion Bl 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn cael gwahoddiad i ddod â gemau bwrdd i'r ysgol ar brynhawn ddydd Mercher Rhagfyr 16eg. Yn dilyn y cinio Nadolig mi fyddwn yn paratoi'r neuadd ar gyfer rhoi cyfle i ddisgyblion fwynhau chwarae'r gemau a chymdeithasu gyda disgyblion o wahanol flynyddoedd. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £1.00 tuag at fudiad yr Urdd os gwelwch yn dda (dim gemau electronig)

Sinema'r Commodore – mi fydd yr ysgol gyfan (heblaw'r Meithrin a'r Derbyn) yn ymweld â Sinema'r Commodore i weld 'How the Grinch stole Christmas' ar brynhawn ddydd Iau, Rhagfyr 17eg. Y gost yn cynnwys cludiant i'r sinema fydd £1.50. **MI FYDD ANGEN I CHWI GASGLU'R PLANT O'R SINEMA AM 3.15yp**

Gwyliau'r Nadolig – mi fydd yr ysgol yn cau am **3:30yp** ar ddydd Gwener, Rhagfyr 18fed ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 4ydd, 2016.

Arian Cinio – y gost ar gyfer yr hanner tymor nesaf fydd £66.70

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.

Mr Clive Williams, Pennaeth
11/12/2015

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth; Mr R. Clive Williams

END OF CHRISTMAS TERM LETTER

Christmas Concert – thank you for your support to the Christmas concert on Tuesday night at the Great Hall. Photos of the evening are on the school website.

Carol Singing – the PTA will be singing carols in the community on Tuesday evening, December 15th from 5 o'clock until 6.30pm. Everyone is welcome to return to school for light refreshments at 6.30pm.

Musical Concert at the Great Hall – years 3, 4, 5&6 will be visiting the Great Hall on Monday, December 14th to see a free concert arranged by the Ceredigion Music Service. We kindly ask for a contribution of 50 pence towards transport costs.

School Christmas Dinner – Wednesday, December 16th.

Board Games – school contribution towards the Urdd's red, white and green appeal – As part of the Urdd's fund raising appeal Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 pupils are invited to bring board games to school on Wednesday afternoon, December 16th. Following the Christmas lunch we will prepare the hall so that children can enjoy playing games and socialising with other pupils from different years. We kindly ask for a contribution of £1.00 towards the appeal (no electronic games please)

Commodore Cinema – the whole school (apart from the Nursery and Reception) will be visiting the Commodore Cinema to see 'How the Grinch stole Christmas' on Thursday afternoon, December 17th. The cost including transport to the cinema will be £1.50. **YOU WILL NEED TO COLLECT YOUR CHILDREN FROM THE CINEMA AT 3.15pm.**

Christmas Holidays – the school will close at **3:30pm** on Friday, December 18th and will re-open on Monday, January 4th 2016.

Dinner Money – the cost for the next half term will be £66.70

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

Merry Christmas and a happy New Year to you all.

**Mr Clive Williams,
Headteacher 11/12/2015**